Ysgol Gyfun Gymunedol

# Penweddig

## Pecyn gwybodaeth

# Goruchwylwyr Arholiadau

## (oriau achlysurol)

**Cyflog Graddfa 2**

**(£25,614 pro-rata)**

Dyddiad cau: 27 Medi 2026

Cymreictod

Parch

Ymdrech

## GORUCHWYLWYR ARHOLIADAU

Annwyl Ymgeisydd

Diolch am fynegi diddordeb yn yr hysbyseb am y swydd hon ym Mhenweddig.

Mae Penweddig yn ysgol lwyddiannus, sydd â hanes o welliant a datblygiad. Mae nifer sylweddol o'n disgyblion yn sicrhau canlyniadau TGAU a Safon Uwch sydd yn uwch nag ysgolion cyffelyb. Mae ymddygiad ein disgyblion yn dda iawn, ac mae ganddynt ymagwedd bositif ac ysgogol at ddysgu. Cyniga'r ysgol gwricwlwm eang a chytbwys gydag ystod gyfoethog o weithgareddau allgyrsiol a hynny mewn amgylchedd Gymraeg a Chymreig. Mae Penweddig yn ysgol hapus, ofalgar a chynhwysol. Cydnabuwyd hyn yn ystod Arolwg Estyn llwyddiannus diweddar yr ysgol yn Hydref 2024:

*"Mae gofalu am les disgyblion yn cael lle blaenllaw yn Ysgol Gyfun Penweddig. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn arddangos parch at ei gilydd ac agweddau cadarnhaol at eu dysgu. Mae disgyblion y chweched dosbarth yn gaffaeliad i'r ysgol, gan fodelu ymddygiadau ac agweddau cadarnhaol iawn i ddisgyblion iau. Mae trefniadau cadarn i fonitro a hybu presenoldeb disgyblion wedi arwain at welliannau sylweddol." (Estyn Hydref 2024)*

Lleolir yr ysgol yng nghanol tref brifysgol fywiog Aberystwyth. Ymfalchïwn yng nghyfleusterau ac adnoddau o'r radd flaenaf sydd gennym ym Mhenweddig. Am flas o'r ysgol ewch i ymweld â gwefan yr ysgol neu wylio ein fideo hyrwyddo.

Os ydych angen unrhyw wybodaeth ychwanegol, mae croeso i chi gysylltu â ni naill ai drwy ffonio'r ysgol (01970 639499), neu drwy e-bost at ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk .

Hyderaf bydd y pecyn gwybodaeth hwn yn rhoi syniad da i chi o gyd-destun y swydd.

**Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw 11 Hydref 2026.**

**Bwriedir cynnal y cyfweliad yn ystod yr wythnos yn cychwyn 19 Hydref 2026.**

Yn gywir

*Clive Williams*

Pennaeth

# DISGRIFIAD SWYDD

## GORUCHWYLWYR ARHOLIADAU

**Oriau Achlysurol**

**CEFNDIR**

Mae'r ysgol yn chwilio am berson brwdfrydig ac egnïol i oruchwylio arholiadau allanol a mewnol yr ysgol. Gan taw swydd achlysurol yw hon telir cyflog yn ôl yr awr. Bydd y mwyafrif o'r gwaith yn ystod tymor yr haf (Mai, Mehefin a Gorffennaf) ond gelwir am wasanaeth goruchwylwyr arholiadau ar adegau eraill o'r flwyddyn hefyd. Disgwylir i'r ymgeisydd llwyddiannus chwarae rhan weithredol i hyrwyddo nodau ac amcanion yr ysgol o Gymreictod, Parch ac Ymdrech.

O gael tîm o oruchwylwyr, byddwn yn cynllunio rhestr oruchwylio o flaen llaw yn sgil derbyn yr amserlen arholiadau allanol oddi wrth y bwrdd arholi. Bydd hyn yn arwain at amserlen o ddyddiadau ar gyfer pob oruchwyliwr. Bydd angen ymrwymiad oddi wrth y goruchwylwyr fel y gallwn sicrhau rhediad llyfn yr arholiadau.

Gan fod Ysgol Penweddig yn ysgol benodedig ddwyieithog, mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol.

**DISGRIFIAD SWYDD**

Y goruchwyliwr yw'r person yn yr ystafell arholiadau sy'n gyfrifol am gynnal sesiwn arholiad ym mhresenoldeb yr ymgeiswyr. Mae gan oruchwylwyr arholiadau r6l allweddol o ran cynnal gonestrwydd y broses arholi/asesu allanol.

Rhaid i oruchwylwyr arholiadau:

- Fod yn gyfarwydd gyda'r cyfarwyddiadau statudol
- Rhoi eu holl sylw i gynnal yr arholiad yn gywir
- Gallu gweld pob ymgeisydd yn yr ystafell arholiadau bob amser
- Bod yn gyfarwydd a'r dogfennau Cyd Gyngor Cymwysterau (JCQ) canlynol: Poster Ff6n Symudol, Gwybodaeth i Ym-geiswyr y Cyd Gyngor Cymwysterau (JCQ), Rhybudd i Ymgeiswyr y Cyd Gyngor Cymwysterau (JCQ) ac unrhyw gyfarwyddiadau penodol yn ymwneud a'r pynciau sy'n cael eu harholi
- Rhoi gwybod i bennaeth y ganolfan os ydynt yn amau diogelwch y papurau arholiad

Ni ddylai goruchwylwyr wneud unrhyw dasg arall (e.e. darllen llyfr neu farcio) yn yr ystafell arholiadau. Darperir hyfforddiant hanfodol i oruchwylwyr arholiadau yn flynyddol.

**TASGAU PENODOL**

Disgwylir i'r ymgeisydd llwyddiannus ymgymryd gyda'r prif ddyletswyddau canlynol

- Goruchwylio disgyblion gan sicrhau bod yr arholiad yn rhedeg yn unol a rheoliadau Cyd Gyngor Cymwysterau (JCQ)
- Sicrhau bod y disgyblion yn derbyn y papur arholiad cywir ynghyd ag unrhyw adnoddau perthnasol ar gyfer yr arholiad
- penodol
- Sicrhau nad oes eiddo amhriodol yn dod mewn i'r ystafell arholiad, megis ff6n symudol ac ati
- Cofnodi presenoldeb ar y cofrestri arholiad swyddogol
- Bod yn ymwybodol o anghenion disgyblion adeg yr arholiad
- Casglu, gwirio a diogelu papurau arholiad ac unrhyw ddeunydd perthnasol arall ar gyfer dychweliad i'r Swyddog Arh-oliadau
- Hebrwng disgyblion i'r tŷ bach os oes angen adeg arholiad

Disgwylir agwedd hyblyg at ddyletswyddau'r swydd, gan fod anghenion y gwasanaeth yn newid. Fe wneir hynny'n unol a gofynion yr ysgol a'r swydd ac yn dilyn trafodaeth gyda deiliad y swydd.

**GWYBODAETH GYFFREDINOL**

Mae'r swyddi atodol yn elfen werthfawr o'r staff ac yn cyfrannu'n sylweddol at lwyddiant yr ysgol.

## MANYLEB PERSON

| | HANFODOL | DYMUNOL |
|---|---|---|
| CYMWYSTERAU | | • Gwybodaeth am amgylchedd ysgol |
| PROFIAD | | • Profiad o weithio gyda neu ofalu am blant o'r oed perthnasol |
| SGILIAU A RHINWEDDAU PERSONOL | • Y gallu i gyfathrebu'n llawn drwy'r Gymraeg<br>• Y gallu i ddod ymlaen yn dda gyda phlant ac oedolion<br>• Sgiliau TGCh da<br>• Sgiliau rhyngbersonol da<br>• Sgiliau rhifedd a llythrennedd da<br>• Y gallu i gadw cyfrinachedd<br>• Gweithio'n adeiladol a hyblyg yn rhan o dîm | • Y gallu a'r parodrwydd i hybu proffil yr Ysgol o fewn y gymuned leol a chenedlaethol |
| ERAILL | • Gwiriad DBS manwl | |

**DIOGELU: DATGANIAD CYNGOR SIR CEREDIGION**
Mae diogelu ac amddiffyn plant yn flaenoriaethau allweddol i ni. Ein nod yw cefnogi plant a phobl ifanc bregus er mwyn sicrhau eu bod mor ddiogel â phosibl. Rydym ni a'n sefydliadau addysgiadol yn cydnabod bod plant a phobl ifanc a'r hawl i gael eu hamddiffyn a byddwn yn cymryd camau i ddiogelu'u lles. Disgwylir i bob aelod staff a gwirfoddolwr rannu'r ymrwymiad hwn a byddwn yn gofyn am Wiriad Manylach y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), sef y CRB gynt.

## GWNEUD CAIS AM Y SWYDD

Mae modd gwneud cais am y swydd hon drwy gwblhau'r ffurflen gais electroneg oddi ar wefan Cyngor Sir Ceredigion Addysg | Ceredigion County Council Careers

## CYFWELD

Bwriedir cynnal y cyfweliad yn ystod yr wythnos yn cychwyn **19 Hydref 2026.**

Dyddiad cau: **11 Hydref 2026.**

## CEREDIGION AC ABERYSTWYTH

### CEREDIGION



Sir arfordirol yng ngorllewin Cymru yw Ceredigion, sydd â phoblogaeth o tua 71,500 (2021).   Mae iddi dirwedd odidog sy'n ymestyn o Fynyddoedd y Cambrian i'r arfordir ysblennydd ym Mae Ceredigion.   Mae ei threfi sirol a'i phentrefi cefn gwlad yn frith o ddiwylliant a hanes.

Mae economi'r sir yn bennaf ddibynnol ar amaethyddiaeth, twristiaeth a bwyd, ond ceir hefyd sectorau arwyddocaol eraill megis addysg uwch, gwyddoniaeth, ymchwil a datblygu.

### ABERYSTWYTH



Aberystwyth yw tref fwyaf Ceredigion. Tref hanesyddol ydyw, a ddaeth yn gyrchfan glan-môr yn oes Fictoria. Mae'n gartref i Brifysgol (un o golegau sylfaenol Prifysgol Cymru), Llyfrgell Genedlaethol Cymru, a Chyngor Llyfrau Cymru.

Mae'r dref wedi chwarae rhan bwysig yn hanes Cymru a'r iaith Gymraeg. Yma yn Aberystwyth, dros  80 mlynedd yn ôl, sefydlwyd yr Ysgol Gymraeg gyntaf yng Nghymru, ac yma hefyd yn 1963 cynhaliwyd protest gyntaf Cymdeithas yr Iaith Gymraeg – protest Pont Trefechan.



Mae nifer o leoliadau i fwynhau perfformiadau theatr, ffilm, cerddoriaeth a chelfyddyd weledol, yn ogystal â chwaraeon. Mae amrywiaeth o siopau annibynnol a llefydd bwyta. Mae marchnad ffermwyr Aberystwyth wedi ei chydnabod fel un o'r goreuon ym Mhrydain.

Yn lleol ceir nifer o lwybrau beicio a chanolfannau gweithgareddau awyr agored, fel Nant yr Arian.

Gyda phoblogaeth o tua 12,250, mae Aberystwyth yn le braf i fyw, astudio, gweithio ac i fagu teulu.